PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER

DYFODOL
Ysbrydoli cenhedlaeth

LEFEL ADDYSG: IS

Siâp a strwythur

Mae gorsafoedd pŵer niwclear yn cynhyrchu trydan. Mae gan bob gorsaf bŵer niwclear strwythurau sy'n dal yr adweithyddion. Maen nhw'n dod mewn gwahanol siapiau, ond mae pob un yn gryf iawn.

Edrycha ar y lluniau (ar y dde)

Rho'r llythyren gywir ar gyfer y siapiau:

Silindr ☐ **Sffêr** ☐ **Cromen** ☐



Dyma siâp hardd a chryf o'r enw cromen geodesig

Os edrychi di'n ofalus, fe alli di weld llawer o wahanol siapiau.

1. Sawl siâp gwahanol wyt ti'n gallu ei weld?
2. Sawl ochr sydd gan y siapiau?
3. Alli di eu henwi?
4. Oes gan unrhyw un o'r siapiau onglau sgwâr?

Cer ati i greu strwythur dal cryf

Bydd angen y rhain arnat ti:

- **Sbageti** (y ffrâm ddur)
- **Malws melys** (y bolltau)
- **Can diod** (yr adweithydd niwclear)



Galli di dorri'r sbageti i ba bynnag maint wyt ti ei eisiau a glynu'r darnau gyda'i gilydd gyda'r malws melys.

1. Dechreua drwy wneud **polygon** 2D. Fe gei di benderfynu ar nifer yr ochrau ond rhaid bod digon o le i roi can tu mewn iddo.

2. Sawl ochr sydd gan dy bolygon di?
3. Tro dy bolygon 2D yn **brism**. Rhaid i ti allu rhoi'r can yn y prism.
4. Sut alli di wneud dy strwythur yn gryfach? Edrycha ar y gromen geodesig a meddwl pam ei bod mor gryf.

5. Efallai y byddai dy athro neu athrawes yn hoffi profi pa mor gryf yw dy strwythur dal drwy roi gwrthrychau trwm i bwyso ar ei ben.